OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2124

# Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2014

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn dwyn yr enw Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2014;

(b) yn gymwys o ran Cymru ac o ganlyniad i hynny mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2—

(i) yn ymestyn i Gymru a Lloegr; a

(ii) yn gymwys o ran Cymru yn unig; ac

(c) yn dod i rym ar 5 Medi 2014.

**Diwygiadau canlyniadol**

**2.**—(1) Yn adran 10 o Ddeddf Drylliau 1968(**1**) (cigydda anifeiliaid)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "licensed under the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995 to slaughter horses, cattle, sheep, swine or goats" rhodder "holding a relevant licence"; a

(b) ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) For the purposes of subsection (1) a person holds a relevant licence if that person—

(a) is licensed under the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995 to slaughter horses, cattle, sheep, swine or goats; or

(b) holds a certificate of competence or is licensed under the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014."

(2) Yn adran 16(1)(c) o Ddeddf Lladd-dai 1974(**2**) (rheoli lladd-dai cyhoeddus), ar ôl "the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995" mewnosoder "or the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014".

(3) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986(**3**) (dulliau priodol o ladd heb boen), yn Nhabl A, yn y golofn ar y chwith o'r pumed cofnod, ar ôl "a current licence granted under the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995" mewnosoder "or

(**1**) 1968 p. 27; diwygiwyd adran 10 gan O.S. 1995/731, rheoliad 28(2) ac Atodlen 14, paragraff (1).
(**2**) 1974 p. 3; diwygiwyd adran 16(1)(c) gan O.S. 1995/731, rheoliad 28(2) ac Atodlen 14, paragraff 2(3).
(**3**) 1986 p. 14; gwnaed diwygiadau perthnasol i Dabl A yn Atodlen 1 gan O.S. 2012/3039, rheoliadau 2 ac 16(1) a (4)(d).

a certificate of competence or licence issued under the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014”.

(4) Ym mharagraff 12 o’r Atodlen i Reoliadau Trwyddedu Meistri Gangiau (Eithriadau) 2013(**4**)—

(a) dileer y gair “or” ar ôl is-baragraff (a); a

(b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder

“or;

(c) a certificate of competence or licence to kill animals under the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014.”

(**4**) O.S. 2013/2216.